



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

### Gwybodaeth i swyddogion / lluoedd yr heddlu yng Nghymru

Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) yn gwneud cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Yn eich rôl fel swyddog heddlu, efallai y bydd yn ofynnol i chi ymwneud â rhieni, plant ac oedolion sy'n gyfrifol am blant yn eu gofal. Mae'n bwysig deall goblygiadau'r newid yn y gyfraith i chi eich hun, eich proffesiwn a'r gymuned ehangach.

### Pam fod y newid yn y gyfraith yn bwysig?

Amcan cyffredinol y Ddeddf yw diogelu hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis.

Mae'n golygu bod gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion, ac yn gwneud y gyfraith yn gliriach fel ei bod yn haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Bwriedir i'r Ddeddf, ar y cyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, arwain at ostyngiad pellach yn y defnydd o gosb gorfforol ar blant yng Nghymru a goddefgarwch ohono. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.

### A yw'r newid yn y gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Ydy, mae'n berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhiant yn absennol (in loco parentis). Os bydd unigolyn yn cosbi plentyn yn gorfforol, byddant yn torri'r gyfraith a gellid eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin, a/neu droseddau eraill gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, mae'n berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.



### Beth sydd wedi newid?

Daeth adran 1 o'r Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae wedi diddymu'r amddiffyniad cosb resymol mewn cyfraith gyffredin fel na ellir ei ddefnyddio yng Nghymru mwyach pan fo plentyn wedi'i gosbi'n gorfforol. Y diffiniad o gosb gorfforol yn y Ddeddf yw unrhyw guro a wneir fel cosb i blentyn.

Cyn 21 Mawrth 2022, roedd rhieni neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis yn gallu defnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil.

Mae dileu'r amddiffyniad yn golygu na fydd unrhyw un yng Nghymru yn gallu defnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol fel amddiffyniad i ymosodiad cyffredin ar blentyn.

Mae'r amddiffyniad o gosb resymol yn parhau i fod ar gael yn Lloegr. Dyma'r tro cyntaf i'r gyfraith droseddol graidd amrywio rhwng Cymru a Lloegr.

Stopio Cosbi  
Corfforol

Ending Physical  
Punishment



## Beth y mae hyn yn ei olygu i'r heddlu?

Mae'r newid yn y gyfraith yn golygu na all yr heddlu na Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru ystyried yr amddiffyniad o gosb resymol mewn unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â throseddau cyfraith gyffredin o ymosod a churo a gyfawnir yn erbyn plentyn.

Mae dewis adsefydlu bellach ar gael yn lle erlyn mewn achosion lle mae'r heddlu'n penderfynu ei bod yn briodol cynnig datrysiad y tu allan i'r llys. Mewn achosion o'r fath, gall yr heddlu gyfeirio'r unigolyn at gymorth rhianta y tu allan i'r llys er mwyn hybu technegau magu plant cadarnhaol a'i helpu i osgoi aildroseddu.

Os bydd rhybuddiad amodol yn cael ei ystyried gan yr heddlu, rhaid i'r heddlu gyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Ni fyddai angen i ddatrysiad cymunedol gael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron. Bydd unrhyw achos a gyfeiriwyd gan yr heddlu at Wasanaeth Erlyn y Goron, sy'n ymwneud â'r Ddeddf, yn cael ei drin gan dîm o gyfreithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ddelio â'r atgyfeiriadau hynny.

Mae Canllaw Arfer, sydd yn atodiad i'r gweithdrefnau diogelu presennol, yn darparu gwybodaeth ychwanegol am ddiogelu plant mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi diweddarau'r 'Safon Gyhuddo' i adlewyrchu'r newid yn y gyfraith. Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylai erlynwyr a'r heddlu ymdrin â phenderfyniadau ynghylch cyhuddo mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau yn erbyn y person.



## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Gellir dod o hyd i wybodaeth am stopio cosbi corfforol yn:  
[llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol](https://llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol)

Deddf Plant (*Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol*) (Cymru) 2020 (*gan gynnwys y nodiadau esboniadol*):  
[legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/3/contents/enacted/welsh](https://legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/3/contents/enacted/welsh)

Asesiad o'r Effaith ar Gyfawnder ar gyfer gweithredu'r Ddeddf:  
[llyw.cymru/deddf-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-2020-asesiadau-effaith-integredig](https://llyw.cymru/deddf-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-2020-asesiadau-effaith-integredig)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:  
[diogelu.cymru](https://diogelu.cymru)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Canllaw Arfer):  
*Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020*

Coleg yr Heddlu:  
[college.police.uk](https://college.police.uk)

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi diweddarau'r dogfennau 'Y Safon Gyhuddo' a 'Cam-drin Plant (nad yw'n rhywiol) - canllawiau ar erlyn' er mwyn adlewyrchu'r newid yn y gyfraith. Mae'r rhain i'w gweld yma:  
[cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard](https://cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard)  
[cps.gov.uk/legal-guidance/child-abuse-non-sexual-prosecution-guidance](https://cps.gov.uk/legal-guidance/child-abuse-non-sexual-prosecution-guidance)

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun cymorth rhianta y tu allan i'r llys ar gael yma:  
[llyw.cymru/grant-cymorth-rhianta-ar-gyfer-datrysiadau-y-tu-allan-ir-llys-canllawiau](https://llyw.cymru/grant-cymorth-rhianta-ar-gyfer-datrysiadau-y-tu-allan-ir-llys-canllawiau)

Mae'r oes wedi newid. Mae agweddau wedi newid.  
Does dim lle i gosbi corfforol mewn Cymru fodern.